**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Mai 2015

Annwyl Mark

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015**

Yn unol â Rheol Sefydlog 27.8, rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am fwriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ystyried y Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 drafft.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y dylai'r rheoliadau ar feini prawf cymhwysedd a wnaed o dan y Ddeddf honno fod yn destun craffu cadarn. Mae'r Pwyllgor wedi nodi ei fwriad i ystyried y Rheoliadau pwysig hyn ar sawl achlysur.

Mae gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi i randdeiliaid sydd â diddordeb a chaiff tystiolaeth lafar ei chlywed yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin. Rydych wedi nodi eich bwriad i drefnu dadl ar y Rheoliadau drafft cyn toriad yr haf, felly byddaf yn sicrhau bod casgliadau'r Pwyllgor ar gael i'r holl Aelodau cyn y ddadl honno.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

David F. Rees.

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6347
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru / SeneddHealth@Assembly.Wales
Trydar / Twitter: @seneddiechyd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh